

Teithiau Cerdded yn Sir Gaerfyrddin

Llansteffan



Hawdd/Cymedrol



GLAW neu HINDDA
mae'n werth dod yma

darganfod sirgar.com

- 1 Parciwch yn y maes parcio ar lan y môr (gellir cael mynediad o LÔN Y DŴR). O'r maes parcio cerddwch heibio i'r llecyn chwarae i blant i'r slipffordd, ewch i fyny'r heol a defnyddiwch y grisiau ar eich ochr chwith er mwyn dringo'r llwybr i'r goedwig.
- 2 Ewch heibio i'r slipffordd a mynd drwy'r gât ger St. Anthony's Cottage. Cadwch i'r chwith i fyny rhiw fer. Ewch drwy 2 gât arall i Ystâd Trwyn Wharley yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- 3 Dylech barhau ar hyd y llwybr am 1500 metr, hyd nes y bydd y llwybr yn gwyo i'r dde ac i gyfeiriad y tir. Pan fyddwch chi'n cyrraedd yr heol, ewch i'r dde tuag at y fferm.
- 4 Cadwch i'r chwith drwy'r fferm ac ewch drwy 3 gât i'r llwybr yn ôl i lawr y dyffryn.
- 5 Ar ôl cyrraedd diwedd y llwybr, ewch drwy gât arall gan gadw wal yr ardd ar eich ochr chwith. Ar ôl cyrraedd y gyffordd ger St. Anthony's Cottage, trowch i'r chwith. Ewch drwy'r gât ger y slipffordd a throwch i'r chwith eto. Ar eich ochr chwith, byddwch chi'n gallu gweld drws yn y wal, agorwch y drws er mwyn ymweld â Ffynnon Antwn.
- 6 Ewch i fyny'r lôn, cadwch i'r dde a dilynwch yr heol i Gastell Llansteffan.Castle.



Oddeutu 2-3 awr

Taith Gerdded i'r Teulu

Ddim yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn.

Ardaloedd Fwdlyd

Oddeutu 4.5 km

Cadwch lygad am..

- Ffynnon Antwn, yn ôl y sôn mae dŵr y ffynnon hon yn gwella nifer o afiechydon! **5**
- Castell hynafol Llansteffan, lle mae golygfeydd godidog ar draws yr aber. **6**
- Traethau euraid tawel, diarffordd Bae Scott. **2**

B4312
I Sanclêr
I Llangain a Caerfyrddin
B4312

DECHRAU
Traeth Llansteffan

